

## CYNGOR CYMUNED MAWDDWY

### **Cofnodion o gyfarfod o Gyfarfod Blynyddol y Cyngor a gynhaliwyd Nos Fercher y 15fed o Fai 2024 am 8.00yh yn Neuadd Dinas Mawddwy.**

Presennol; Cyng. Catrin Jones Johnson, John P Jones, Berwyn Harding, Wyn Lewis, Idris Jones, Sion Alun Roberts, Rhys Davies, Lynne Mccrickett, Arfon Hughes, John P Roberts, a Huw T Jones (Clerc)

#### **1. Estynwyd groeso cynnes i bawb gan y Cadeirydd Cyng Catrin Jones Johnson.**

Gwahoddwyd **ddatganiadau o ddi-dordeb** am faterion ar yr agenda. Nid oedd unrhyw ddatganiadau.

Aethpwyd ymlaen I gael adroddiad gan Cyng Catrin Johnson am flaenoriaethau, gweithgareddau a chyflawniadau'r Cyngor dros y flwyddyn 2023-24.

Roedd y gwaith wedi parhau i sicrhau fod arian trethdalwyr yn cael eu defnyddio yn gyfrifol ac effeithiol. Bu'r Cyngor yn ymateb ar faterion cynllunio drwy gydol y flwyddyn, ynghyd a danfon ymlaen materion i adran priffyrdd a chefnffyrdd Cyngor Gwynedd. Yn ol yr arfer, trefnwyd a gosodwyd Coeden Nadolig, roedd y gwaith ar y biniau baw cwn yn parhau, a sicrhwyd fod mynwentydd Mallwyd, Dinas a Llanymawddwy yn cael gofal. Rhoddwyd arwyddion i fyny ar gornel stryd Dinas i geisio arafu cerbydau Rhoddwyd ystyriaeth i hyfforddiant Cynghorwyr, a chymerwyd rhan yng Ngwasanaeth Sul y Cofio gan Gynghorwyr.

Diolchwyd yn arbennig I'r Cyng John P Jones, Wyn Lewis, Idris Jones a'r Clerc am eu gwaith drwy gydol un prynhawn yn gosod ffens bren o rael a pholion ym mynwent Dinas, ac i'r Cyng Rhys Davies am ei rodd o'r holl goed am y swm bach o £80.

Adroddodd Catrin am ei gwaith yn ail fframio, ail osod, peintio a thrwsio 5 Bwrdd Gwybodaeth, sef Bwlch y Groes, Bwlch yr Oerddrws, Mallwyd, Aberangell a Llanymawddwy. Hefyd ailframio ac ail osod 3 ffram bwrdd hysbysebion, a brandiwyd y Byrddau Gwybodaeth ar Byrddau hysbysu gyda logo y Cyngor.

Roedd hyn yn dwyn y ben 2 flynedd o waith dan Gadeiryddiath Cyng Catrin Jones a soniodd hefyd am y gwaith ar gofeb ar ben Bwlch y Groes, y glanhau, ail beintio, selio ai hail-osod. Hefyd gwaredu rhododendrons o fynwent Dinas Mawddwy, ac ailbeintio, glanhau a thacluso o gwmpas y gofgolofn uwchben Minllyn.

Diolchwyd yn fawr iawn I'r Cyng Catrin Johnson am ei hymroddiad, a'i gwaith caled.

2. Nodwyd nad oedd unrhyw gais i gael cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.
3. **Cadarnhawyd gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 6ed o Fawrth ar gynnig Cyng Rhys Davies a'i eilio gan Cyng Lynne Mccrickett.**
4. **Materion yn codi**

- a) **Materion Priffyrdd/Cefnffyrdd** – adroddwyd yn llawn am yr ymatebion i faterion Priffyrdd ers y tro diwethaf. Gyda maes parcio Neuadd Aberangell, roedd siom fawr na chafwyd ymateb mwy boddhaol, a bod rhaid gofyn eto am gyfarod ar y safle gyda chynrychiolwyr o'r Cyngor Cymuned yn unol a'r cais. Gyda'r dwr sy'n dod i lawr at iard ty 'Conifers' ac yna i lawr i'r ffordd, nodwyd fod rhaid cadw golwg ar y sefyllfa.

O ran materion Cefnffyrdd, darllenwyd e-bost dyddiedig 14.03.24. Nodwyd fod dwr yn parhau ar y ffordd ger Celynbrithion ar gyfnodau o law.

- b) **Gwerthiant Eglwys Llanymawddwy** – adroddwyd nad oedd unrhyw ddiweddaraid i law.
- c) **Cwyn am 2 garafan static** – Min y Goedwig, Aberangell, - nid oedd diweddariad, ac roedd rhaid atgoffa. Nodwyd nad oedd unrhyw waith tacluso wedi ei wneud yno.
- d) **Pwyllgor yr Hen Fynwent** – cadarnhaodd Cyng Catrin Johnson ei bod wedi cael e-bost gan y Gyfreithwraig Nansi Thirsk yn y cyswllt yma, a bod pethau yn symud ymlaen I gael ymddiriedolwyr o'r newydd. Diolchwyd I Catrin am ei hymdrechion.
- e) **Safle chwarae i blant hyd at 15 oed yn y Plas yn Dinas** – nid oedd diweddariad, ac roedd rhaid atgoffa.
- f) **Cais am diffibrilator i Lanymawddwy** – nid oedd unrhyw ddiweddariad.
- g) **Gwaith ym mynwent Dinas Mawddwy** – hyn wedi ei gwblhau ar y 24ain o Ebrill, a diolchwyd yn fawr unwaith eto.
- h) **Sefyllfa ddiweddaraf gyda'r Flexibus o Dinas I Fachynlleth**, (sef dim gwasanaseth ar ddydd Sadwrn) - cadarnhaodd y Cyng John P Roberts ei fod wedi ysgrifennu ar hyn, ac yn disgwyl ateb.

## 5. Ethol Swyddogion 2024-25.

- a) **Cadeirydd** – ar gynnig Cyng John P Roberts a'l eilio gan Cyng Idris Jones, cytunwyd yn unfrydol ar enw Cyng John Parry Jones yn Gadeirydd am 2024-25.
- b) **Is- Gadeirydd** - ar gynnig Cyng Idris Jones a'l eilio gan Cyng Catrin Johnson, cytunwyd yn unfrydol ar enw Cyng Sion Alun Roberts yn Is- gadeirydd am 2024-25.

## 6. Telerau a Chostau y Clerc 2024-25

Rhodddwyd cyfle i'r Cynghorwyr gael trafodaeth eu hunain yn y cyswllt yma, a gadawodd y Clerc yr ystafell. Cadarnhawyd cadw y telerau yr un fath ar gyfer 2024-25.

## 7. Cadarnhau dyddiadau gweddill cyfarfodydd Cyngor Mawddwy ar gyfer 2024/25.

Cadarnhawyd y dyddiadau canlynol; 10/07/24, 28/08/24, 9/10/24, 4/12/24, 22/01/25, 5/03/25.

Byddai'r Clerc yn cadarnhau ar wefan y Cyngor.

## 8. Dosbarthwyd ffurflenni cofrestr buddiannau l'w cwblhau gan Gynghorwyr, a derbyniwyd y cyfan I law

Ar gynnig Cyng John P Roberts a’l eilio gan Cyng Sion Alun Roberts, a gyda chytundeb pawb, mabwysiadwyd y canlynol;

**Cod ymddygiad** – (dosbarthwyd gopiau caled er gwybodaeth pawb)

### **Rheoliadau ariannol a rheolaidau sefydlog**

**Asesiad risg y mynwentydd a materion cyffredinol ac ariannol y Cyngor** (a oedd wedi eu dosbarthu ymlaenllaw l’r Cynghorwyr)

Yn y cyswllt yma, cyfeiriwyd at gyswllt Andea Moss gyda’r Clerc ynglyn a thorri gwair mynwent Mallwyd eleni, a hefyd gyswllt Cyng Arfon Hughes. Cytunwyd yn unfrydol l barhau a’r hyn a benderfynwyd esioes, sef cadw rhan fach heb ei dorri bob mis Mai. Pwysleisiwyd mor bwysig yw cael cywirdeb ffeithiau pan yn ymdrin a hyn, a bod pawb yn sicrhau enw da y Cyngor Cymuned. Cytunwyd y byddai y Cadeirydd John P Jones yn siarad gyda Tegid (y contractor) ynglyn a hyn, a beth a ddywedir yn yr asesiad risg.

**Cofrestr asedau** – cadarnhawyd y ffigwr o £8050 (fel y cytunwyd yng nghyfarfod 6.03.24 o’r Cyngor)

Hefyd mabwysiadwyd y polisiau eraill – **pryderon a chwynion, cyfle cyfartal, amgylcheddol, bioamrywiaeth, diogelu data a rhyddid gwybodaeth** ( sydd oll ar wefan y Cyngor)

### **9. Cynrychiolaeth y Cyngor Cymuned ar bwyllgorau / sefydliadau allanol.**

Cadarnhawyd y canlynol;

Un Llais Cymru – Cyng Wyn Lewis a Catrin Johnson

Neuadd Dinas Mawdwy – Cyng Sion Alun Roberts

Neuadd Aberangell – Cyng Berwyn Harding.

Pwyllgor yr Hen Fynwent – Cyng Catrin Johnson a Lyn Mccrickett

Eco Dyfi – Cyng Rhys Davies

### **10. Materion Cynllunio**

Adroddwyd fod un cais wedi ei ddosbarthu ers y tro diwethaf, sef;

Diwygio Amod 2 (Cynlluniau a gymeradwywyd) a 3 (Cladin pren allanol) ynglwm o ganiatad cynllunio NP5/74/482B 14/03/2023 – **Tir ger y Fynwent, Dinas Mawddwy**

Roedd y Cyngor Cymuned yn gefnogol i’r cais. Gwelwyd nad oedd hyn yn newid dim ar welediad yr eiddo. (cafwyd datganiad diddordeb gan y Cyng John P Roberts pan drafodwyd hyn)

### **11. Materion Cyllid.**

- a) **Cyflwynwyd cyfrifon 2023-24** yn swyddogol l'r Cynghorwyr. Roeddent wedi eu paratoi a'u danfon i'r archwilydd mewnol, a bellach wedi eu dychwelyd heb unrhyw ymholiadau. Cadarnhwyd fod y cyfan yn gyflawn l'w cyflwyno l'r archwilydd allanol maes o law, ac roedd yr hysbyseb gyhoeddus wedi ei baratoi. Cadarnhwyd hefyd fod y cais am ad-daliad y VAT wedi ei wneud a bod taliad o £79 bellach wedi ei dderbyn.
- b) **Nodwyd gohebiaeth ac anfoneb y cwmni yswiriant Clear Councils**, am gyfanswm o £425.55 a chadarnhwyd manylion y gorchudd yswiriant ar gyfer 2024-25. (Roedd y cyfan wedi ei ddanfôn allan ymlaenllaw l'r Cynghorwyr)

Ar gynnig Cyng John P Roberts a'l eilio gan Cyng Catrin Jones, cytunwyd l'w dalu.

- a) Nodi derbyn **rhan gyntaf y praesept** am 2024-25, sef £6350. Nodi balansau y cyfrifon, (15.03.24), sef Cyfri Cyfredol £8051.96, Cyfri Claddedigaeth £1043.28 Cyfri Cadw £779.71). Cyfeirwyd hefyd at gyllideb 2024-25 a oedd wrth law..
- b) Nodwyd anfoneb Glyn Rees a'l Fab £65 am ail-agor bedd l'r diweddar Margaret Gwyneth Williams, ac ar gynnig Cyng Sion Alun Roberts a'l eilio gan Cyng Catrin Jones cytunwyd l'w dalw.
- c) Cytunwyd l dalw aelodaeth **Un Llais Cymru am 2024-25** - £150, ar gynnig Cyng Arfon Hughes a'l eilio gan Cyng Berwyn Harding
- d) Cytunwyd, ar gynnig Cyng Berwyn Harding a'l eilio gan Cyng Idris Jones l dalu anfoneb Dafydd Davies am goed l'r ffens bren yn y fynwent ac ochr y comin am gyfanswm o £80.

**12.** Roedd cais am arian l law gan **Clwb Rygbi Machynlleth**, ac yn dilyn pleidlais, penderfynwyd, ar gynnig Cyng Idris Jones a'l eilio gan Cyng Arfon Hughes l gyfrannu £30.

### **13. Gohebiaeth.**

- a) Darllenwyd e bost gan y Commonwealth War Graves Commission yn cadarnhau taliad o £15 bob 3 blynedd am fedd ym mynwent newydd Dinas, a mynwent Sant Tydecho, Mallwyd. Roedd hyn ar gyfer mynediad iddynt, a thorri gwair ayyb. Gwelwyd y dylid gofyn a allent ddod allan l'r mynwentydd yma l lanhau y cerrig. Byddai'r Clerc yn cysylltu a hwy.
- b) Roedd e- bost gan Cyngor Tref Nefyn ynglyn a'u pryder am wariant Cyngor Gwynedd ar geir trydan, ynghyd ag ateb Dyfrig Siencyn wedi ei ddsbarthu l bawb.
- c) Sesiynau Hyfforddiant Un Llais Cymru - roedd manylion eisoes wedi eu danfon i'r Cynghorwyr
- d) Darllenwyd Ymgynghoraid y Parc Cenedlaethol ar Gyfarwyddyd Erthygl 4 ar gyfer rheoli'r defnydd o dai preswyl – gwelwyd y dylid gadael hwn fel bod pob Cynghorydd yn ateb yn unigol.
- e) Roedd e-bost y Parc Cenedlaethol ynglyn a dod yn aelod o'r Awdurdod wedi ei ddsbarthu.

f) Cyfeiriwyd hefyd at wybodaeth Cronfa Cymunedau Eryri, Arolwg iaith gan Gyngor Gwynedd, gwaith tacluso Tim Ardal Ni, a sesiwn 'Tai ar daith' Cyngor Gwynedd yn Dolgellau 16eg o Fai.

#### **14. Unrhyw Fater arall.**

- a) Roedd gwaith ei angen i lanhau a thacluso maes parcio yn Llanymawddwy, a chadarnhwyd y byddai y Cyngorwyr lleol Sion Alun Roberts a John P Roberts yn arwain ar hyn.
- b) Roedd campervan wedi ei pharcio ar ochr y ffordd ynghanol Aberangell (gyferbyn a mynediad maes carafannau) ac yn achosi anhwylustod.
- c) Roedd angen rhoi arwydd yn ddiogel ger stepiau mynediad i Eglwys Mallwyd, a chytunodd Cyng Arfon Hughes i wneud hyn. Cyfeiriodd Arfon hefyd at y nifer fach sy'n mynychu gwasanaethau Eglwys Mallwyd, a gofynnwyd beth allai y Cyngor Cymuned wneud i helpu.
- d) Roedd galwad ffon gan Dwr Cymru i un Cyngorwrydd yn dweud fod plwm yn y dwr – ac roedd angen ymchwilio i hyn.
- e) Roedd bwrdd yn cael ei roi ar y pafin gyferbyn a Caffi'r Hen Siop, ac yn achosi anhwylustod. Addawodd Cyng Arfon Hughes gael gair am hyn, a diolchwyd iddo.
- f) Roedd faniau yn parcio ger y groesffordd Llew Coch yn y Dinas, ac yn achosi bod yn fwy anodd gweld.

**DYDDIAD CYFARFOD NESAF; NEUADD DINAS MAWDDWY NOS FERCHER  
10fed o Orffennaf 2024 , 8.00y.h.**